

Powys

**CRONFA BENSIWN
POWYS PENSION FUND
Y Polisi Rheoli Risg**

Rhagymadrodd

Dyma'r Polisi Rheoli Risg ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys (y Gronfa) sy'n cael ei rheoli a'i gweinyddu gan Gyngor Sir Powys (yr Awdurdod Gweinyddu).

Mae'r Polisi'n manylu ar y strategaeth rheoli risg ar gyfer y Gronfa, gan gynnwys:

- Y dull o reoli risg ar gyfer y Gronfa, ac yn arbennig agweddau tuag at risg a'r awydd am risg
- sut mae rheoli risg yn cael ei weithredu
- cyfrifoldebau rheoli risg
- y gweithdrefnau sy'n cael eu mabwysiadu ym mhroses rheoli risg y Gronfa

Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Drwy nodi a rheoli risgiau trwy bolisi a strategaeth rheoli risg effeithiol, gall yr Awdurdod Gweinyddu:

- Ddangos arfer gorau mewn llywodraethu
- Gwella rheolaeth ariannol y gronfa a lleihau risg ac effaith amodau andwyol y Gronfa
- Rhagweld ac ymateb yn briodol i risgiau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg
- Nodi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a all godi
- Sicrhau Gweinyddiaeth Pensiynau o safon uchel

Bydd y Gronfa'n mabwysiadu arferion gorau o ran rheoli risg, a fydd yn cefnogi dull strwythuredig ac wedi'i ffocysu o reoli risgiau a sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o lywodraethu'r Gronfa, ar lefel strategol a gweithredol.

Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu ochr yn ochr â pholisi a dull rheoli risg Cyngor Sir Powys (y Cyngor). Mae'r Gronfa'n defnyddio proses rheoli risg y Cyngor i nodi, dadansoddi, rheoli a monitro risg.

I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol, gan gynnwys aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr cyflogwyr. Mae hefyd yn berthnasol i uwch swyddogion sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa.

Mae uwch swyddogion sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa o ddydd i ddydd a gweinyddu'r CPLIL hefyd yn rhan annatod o reoli risg a bydd gofyn iddynt feddu ar ddealltwriaeth briodol o reoli risg sy'n ymwneud â'u rolau.

Disgwylir hefyd i ymgynghorwyr a chyflenwyr y Gronfa fod yn ymwybodol o'r Polisi hwn, a chynorthwyo swyddogion, aelodau'r Pwyllgor Pensiwn a

Buddsoddi ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn ôl yr angen, i gyflawni amcanion y Polisi hwn.

Nodau ac Amcanion

Mewn perthynas â llywodraethu'r Gronfa, amcanion yr Awdurdod Gweinyddu yw:

- Gweithredu er lles gorau aelodau a chyflogwyr y Gronfa
- Bod â threfniadau llywodraethu cadarn ar waith, sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus ac sy'n cael eu hategu gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol
- Sicrhau bod y Gronfa Bensiwn yn cael ei rheoli a bod ei gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu gydag uniondeb a sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gadarn ac wedi'u cofnodi'n ofalus
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol a dilyn arfer gorau

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn o ran rheolaeth, bydd y Gronfa yn anelu at gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau priodol, sy'n cynnwys:

- Deddf Pensiynau 2004 a Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus fel y maent yn ymwneud â rheoli risg.
- Unrhyw ganllawiau eraill, fel y rhai a gynhyrchir gan gyrff proffesiynol (er enghraifft – CIPFA).

Agwedd at Reoli Risg

Mae'r Gronfa'n cydnabod nad yw'n bosibl, neu hyd yn oed yn ddymunol, dileu pob risg. Felly mae derbyn a rheoli risg yn weithredol yn rhan allweddol o'r strategaeth rheoli risg sy'n ofynnol ar gyfer y Gronfa. Un penderfynydd allweddol wrth ddewis y camau i'w cymryd mewn perthynas ag unrhyw risg fydd ei heffaith bosibl ar amcanion y Gronfa yng ngoleuni ei harchwaeth am risg, yn enwedig mewn perthynas â materion buddsoddi. Yr un mor bwysig yw taro cydbwysedd rhwng cost camau rheoli risg yn erbyn y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd neu'r effaith.

Wrth reoli risgiau, bydd y Gronfa yn:

- Sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng cymryd risgiau a'r cyfleoedd y gellid eu hennill.
- Mabwysiadu system a fydd yn galluogi'r Gronfa i ragweld ac ymateb yn gadarnhaol i newid.
- Lleihau colled a difrod i'r Gronfa ac i randdeiliaid eraill sy'n ddibynnol ar y buddion a'r gwasanaethau a ddarperir.

- Sicrhau, wrth gychwyn ar feysydd gweithgaredd newydd (strategaethau buddsoddi newydd, cydweithio, cytundebau fframwaith ac ati), bod y risgiau a gyflwynir ganddynt, eu tebygolrwydd a'u heffaith bosibl yn cael eu deall a'u hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r Gronfa hefyd yn cydnabod nad yw rheoli risg yn ddiwedd, ac ni fydd ychwaith yn dileu risg o'r Gronfa na'r Awdurdod Gweinyddu. Fodd bynnag, mae'n dechneg reoli gadarn sy'n rhan hanfodol o'r ffordd y caiff y Gronfa ei rheoli. Mae manteision dull cadarn o reoli risg yn cynnwys gwneud penderfyniadau gwell, gwell perfformiad a darpariaeth gwasanaethau, defnydd mwy effeithiol o adnoddau a diogelu enw da. Yn ogystal, mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall y risgiau posibl, a'r rheolaethau gofynnol, a wynebir gan y Gronfa.


Cyfrifoldeb

Rhaid i'r Awdurdod Gweinyddu fod yn fodlon fod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. I'r diben hwn, mae Uwch Swyddogion y Gronfa yn gyfrifol am sicrhau bod y broses a amlinellir isod yn cael ei chyflawni yn amodol ar oruchwyliaeth y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi a'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

Fodd bynnag, cyfrifoldeb pawb a gwmpesir gan y Polisi hwn yw nodi unrhyw risgiau posibl i'r Gronfa a sicrhau eu bod yn cael eu bwydo i mewn i'r broses rheoli risg.

Polisi Rheoli Risg

Mae proses rheoli risg y Gronfa yn unol â'r hyn a argymhellir gan CIPFA ac mae'n ddull parhaus sy'n edrych yn systematig ar risgiau sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Gronfa yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae'r prif brosesau sy'n ymwneud â rheoli risg wedi'u nodi yn y ffigur isod a manylir arnynt yn yr adrannau a ganlyn.



Adnabod Risg

Mae nodi risg yn golygu asesu risgiau yng nghyd-destun amcanion a thargedau'r Gronfa. Mae'r broses adnabod risg yn un rhagweithiol ac yn adweithiol. Mae'n gofyn am sganio'r gorwel ar gyfer risgiau a pheryglon newydd neu rai sy'n dod i'r amlwg; a dysgu o adolygu sut mae risgiau'r gorffennol a'r presennol wedi dod i'r amlwg.

Unwaith y cânt eu nodi, bydd risgiau'n cael eu dogfennu ar gofrestr risg y Gronfa, sef y brif ddogfen reoli ar gyfer dadansoddi a dosbarthu, rheoli a monitro'r risgiau hynny.

Bydd adolygiad llawn o'r gofrestr risg yn cael ei gynnal yn flynyddol, gyda dadansoddiad dyfnach i bob un o'r colofnau Gweinyddu, Llywodraethu a Buddsoddi yn amlach gan y Bwrdd Pensiynau.

Gall risgiau newydd ddod i'r amlwg ar unrhyw adeg a dylai'r broses o nodi risgiau gynnwys dyrannu digon o amser ac adnoddau i nodi'r rhain ac felly dylai fod yn rhan annatod o reolaeth y Gronfa o ddydd i ddydd. Bydd newidiadau o'r fath i'r gofrestr risg yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol yn chwarterol.

Dadansoddi Risg

Unwaith y bydd risgiau posibl wedi'u nodi, cam nesaf y broses yw dadansoddi a phroffilio pob risg. Bydd risgiau'n cael eu hasesu yn erbyn y canlynol lle bydd y sgôr ar gyfer tebygolrwydd (o un i bump) yn cael ei luosi â'r sgôr ar gyfer effaith (o un i bump) i bennu'r categori risg presennol, fel y nodir isod.

Mae "tebygolrwydd" ac "effaith" yn cael eu lluosu gyda'i gilydd i gyrraedd risg feintiol. Po uchaf yw'r rhif, yr uchaf yw'r risg. Mae'r meini prawf gwerthuso risg isod yn nodi asesiad swyddogion o bob categori risg a'u heffaith ganfyddedig ar y Gronfa.

	Effaith Ansylweddol (1)	Minor Rhywfaint o Effaith (2)	Effaith Gymedrol (3)	Effaith Fawr (4)	Effaith Ddifrifol (5)
Tebygolrwydd bron yn sicr (5)					
Tebygol (4)					
Efallai yn debygol (3)					
Annhebygol (2)					

Tebygolrwydd prin (1)					
Amlygiad Risg	Effaith/Tebygolrwydd		Rheolaeth		
	Canlyniadau trychinebus bron yn sicr o ddigwydd		Lefel annerbyniol o risg sy'n gofyn am gymryd camau unioni ar unwaith. Mae angen monitro rheolaidd, o leiaf bob mis.		
	Canlyniadau mawr, yn debygol o ddigwydd		Lefel annerbyniol o amlygiad i risg sy'n gofyn am fonitro gweithredol rheolaidd (o leiaf bob chwarter) a mesurau i'w rhoi ar waith i leihau amlygiad.		
	Canlyniadau cymedrol, digwyddiad posibl		Lefel dderbyniol o risg yn amodol ar fesurau monitro gweithredol rheolaidd, o leiaf bob chwarter.		
	Canlyniadau ansylweddol, bron yn annhebygol o ddigwydd		Lefel dderbyniol o risg yn amodol ar fesurau monitro goddefol, o leiaf unwaith y flwyddyn.		

Rheoli Risg

Bydd uwch swyddogion yn adolygu i ba raddau y mae'r risgiau a nodwyd wedi'u cwmpasu gan reolaethau mewnol presennol ac yn penderfynu a oes angen unrhyw gamau pellach i reoli'r risg, gan gynnwys lleihau'r tebygolrwydd y bydd digwyddiad risg yn digwydd neu leihau difrifoldeb y canlyniadau pe bai'n digwydd. Cyn y gellir cymryd unrhyw gamau o'r fath, efallai y bydd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau, yn dilyn ystyriaethau a wnaed gan y Bwrdd Pensiynau. Gallai canlyniad unrhyw newid i'r rheolaethau mewnol arwain at unrhyw un o'r canlynol:

GODDEF risg – monitro i sicrhau nad yw'r effaith a'r tebygolrwydd yn newid.
 TRIN risg – cyflawni rheolaethau i leihau tebygolrwydd/effaith y risg.
 TROSGLWYDDO risg – drwy yswirio neu drosglwyddo'r risg i drydydd parti.
 TERFYNU risg – rhoi'r gorau i wneud y gweithgaredd.

Monitro Risg

Monitro risg yw rhan olaf y cylch rheoli risg a bydd yn gyfrifoldeb yn y pen draw ar y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau. Wrth fonitro gweithgarwch rheoli risg, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- A wnaeth y rheolaethau risg a gymerwyd gyflawni'r canlyniadau dymunol
- A oedd y gweithdrefnau a fabwysiadwyd a'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer cynnal yr asesiad risg yn briodol
- Byddai mwy o wybodaeth am y risg a'r canlyniadau posibl wedi gwella'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r risg honno
- A oes unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer asesu a rheoli risgiau yn y dyfodol

Rheolaethau Mewnol Allweddol

Bydd cynnydd o ran rheoli risgiau yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar y gofrestr risg. Bydd y gofrestr risg, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r rheolaethau mewnol, yn cael ei darparu'n chwarterol i'r Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol.

Bydd y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau hefyd yn cael diweddariadau ad hoc mewn perthynas ag unrhyw newidiadau sylweddol i risgiau.

Bydd y Bwrdd Pensiwn yn cael diweddariad ym mhob cyfarfod a bydd yn gallu rhoi sylwadau a mewnbwn i reoli risgiau.

Bydd y Gronfa'n darparu ac yn annog hyfforddiant rheolaidd i bawb sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa, sy'n cynnwys aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, ynghyd â swyddogion.

Mae'r Cyngor yn mynnu bod nifer o gyrsiau hyfforddi gorfodol yn cael eu cwblhau a'u diweddarau'n rheolaidd.

Er mwyn nodi a yw amcanion y Polisi hwn yn cael eu cyflawni, bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn adolygu bod gofynion y Polisi hwn yn cael eu cyflawni'n flynyddol gan ystyried unrhyw adborth gan y Bwrdd Pensiynau.

Mae'r risgiau a nodir ar gofrestr risg y Gronfa yn bwysig iawn i'r gronfa bensiwn. Lle nodir risg a allai fod yn arwyddocaol i'r Cyngor, byddai'n cael ei gynnwys naill ai yn y gofrestr risgiau strategol allweddol neu'r gofrestr risg gorfforaethol.

Gwybodaeth Bellach

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn y Polisi Rheoli Risg hwn neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag ef, cysylltwch â:

Chris Hurst – Rheolwr y Gronfa Bensiwn
E-bost: chris.hurst@powys.gov.uk
Ffôn: 01597 827640